# Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

**2013 dccc 4**

## RHAN 3

TREFNIADAU AR GYFER LLYWODRAETH LEOL

## PENNOD 6

DARPARIAETH ARALL SY'N BERTHNASOL I FFINIAU AWDURDODAU LLEOL

### 45 Newid ardal heddlu

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo'r Comisiwn yn cynnal adolygiad o un neu ragor o brif ardaloedd o dan adran 23.

(2) Yn ogystal â'r newidiadau y caniateir eu hargymell o dan adran 23(3) caiff y Comisiwn, mewn cysylltiad ag unrhyw newid i ffin prif ardal, argymell unrhyw newidiadau i ardal neu ardaloedd heddlu (gan gynnwys newidiadau sy'n arwain at leihad neu gynnydd yn nifer ardaloedd heddlu) sy'n briodol yn ei farn ef.

(3) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl cael adroddiad sy'n cynnwys argymhellion gan y Comisiwn mewn perthynas ag adolygiad a gynhelir o dan adran 23—

(a) drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, weithredu unrhyw argymhellion i newid ardal heddlu, gydag addasiadau neu hebddynt,

(b) os yw'n bwriadu gweithredu'r argymhellion gydag addasiadau, gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad pellach o dan adran 23 o'r prif ardaloedd hynny y mae'r argymhellion yn effeithio arnynt a bennir yn y cyfarwyddyd, neu

(c) penderfynu peidio â gweithredu mewn cysylltiad â'r argymhellion.

(4) Rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â chyfarwyddyd o dan is-adran (3)(b).

(5) Caniateir i orchymyn a wneir o dan yr adran hon gynnwys—

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(a) darpariaeth i gomisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer ardal heddlu y mae'r gorchymyn yn effeithio arni ddod yn gomisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer ardal heddlu sy'n deillio o'r gorchymyn,
(b) darpariaeth i gynnal etholiad am gomisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer unrhyw ardal heddlu sy'n deillio o'r gorchymyn,
(c) unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol neu drosiannol sy'n angenrheidiol neu'n hwylus ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol.

(6) Caiff gorchymyn sy'n cynnwys darpariaeth o'r math a grybwyllir yn is-adran (5)(b) ei gwneud yn ofynnol i'r etholiad dan sylw gael ei gynnal cyn i'r newid i ardaloedd heddlu gael effaith.

(7) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon gymhwyso neu addasu unrhyw ddeddfiad neu siarter.

(8) Ni chaiff gorchymyn a wneir o dan yr adran hon ddarparu i brif ardal gael ei rhannu rhwng 2 neu ragor o ardaloedd heddlu.

(9) Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan y adran hon nes bod y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd yr Ysgrifennydd Gwladol yr argymhellion wedi dod i ben.

## 46 Rhychwant ffiniau tua'r môr

(1) Mae unrhyw ran o lannau'r môr i farc y distyll yn ffurfio rhan o'r gymuned neu'r cymunedau y mae'n cydffinio â hi neu â hwy gan gyfateb i gyfran rhychwant y ffin gyffredin.

(2) Mae pob croniant o'r môr (boed yn naturiol neu'n artiffisial) yn ffurfio rhan o'r gymuned neu'r cymunedau y mae'n cydffinio â hi neu â hwy gan gyfateb i gyfran rhychwant y ffin gyffredin.

(3) Mae pob croniant neu ran o lannau'r môr sy'n ffurfio rhan o gymuned o dan yr adran hon hefyd yn ffurfio rhan o'r brif ardal a'r sir wedi ei chadw lle y mae'r gymuned.

## 47 Newid ffin yn dilyn newid cwrs dŵr

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo cwrs dŵr yn ffurfio llinell ffin rhwng dwy neu ragor o ardaloedd llywodraeth leol.

(2) Os newidir y cwrs dŵr, drwy arfer unrhyw bŵer a roddwyd gan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 (p. 57), Deddf Draenio Tir 1991 (p. 59) neu unrhyw ddeddfiad arall, mewn unrhyw ffordd sy'n effeithio ar ei gymeriad fel llinell ffin, rhaid i'r person y gwneir y newid o dan ei awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru am y newid cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, amrywio llinell ffin y mae hysbysiad a roddir o dan is-adran (2) yn ymwneud â hi drwy roi llinell ffin newydd (boed a yw'n cynnwys yn gyfan gwbl neu'n rhannol linell y cwrs dŵr fel y'i newidiwyd) yn lle cymaint o linell y ffin honno ag a oedd ar linell y cwrs dŵr cyn y newid.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (3).

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru, yn y modd sy'n briodol yn eu barn hwy, gyhoeddi hysbysiad o unrhyw orchymyn a wneir o dan yr adran hon.

(6) At ddibenion yr adran hon, mae cyfeiriad at ardal lywodraeth leol yn cynnwys cyfeiriad at sir wedi ei chadw.